

Paratoi ar gyfer amhariad ar arholiadau

Mae'r hysbysiad hwn yn seiliedig ar y canllawiau sy'n rhan o Gynllun Wrth Gefn y CGC, sydd i'w gweld ar wefan y CGC: www.jcq.org.uk/exams-office/other-documents/jcq-joint-contingency-plan

Rhaid i bob canolfan sicrhau bod ganddi gynlluniau wrth gefn ar waith rhag ofn y bydd amharu mawr yn digwydd ar y gyfundrefn addysg. Gall yr amhariad fod ar sail tri pheth, ac amlinellir y rhain isod.

Ymgeiswyr mewn perygl o beidio â gallu sefyll arholiadau – y canolfannau'n parhau i fod ar agor

Dylai eich cynlluniau wrth gefn ganolbwyntio ar ddewisiadau sy'n golygu bod modd i ymgeiswyr sefyll eu harholiadau. Dylid ystyried y canllawiau sydd i'w gweld yng nghyhoeddiad y CGC, Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau, <https://www.cbac.co.uk/media/pv2ml2ci/9-ice-20-21-version-for-website-w.pdf>. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ystyried symud amser dechrau'r arholiad (yn ôl y rheoliadau) i bob ymgeisydd (gweler Adran 6.2 dogfen Cyfarwyddiadau y CGC)
- Bod yn ymwybodol o'r rheolau'n ymwneud â'r sawl sy'n cyrraedd yn hwyr iawn (gweler Adran 21 dogfen Cyfarwyddiadau y CGC).

Lle bynnag y bo'n bosibl, sefyll yr arholiad bob amser yw'r hyn sydd er budd pennaf yr ymgeiswyr. Ond, os bydd ymgeiswyr nad ydyn nhw'n gallu sefyll yr arholiad yn bodloni'r meini prawf, mae'n bosibl cyflwyno cais am ystyriaeth arbennig drwy absenoldeb am resymau derbyniol (gweler Pennod 4 dogfen Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig y CGC, <https://www.cbac.co.uk/media/eiqbi5ro/16-a-guide-to-the-spec-con-process-202021-w.pdf>).

Peidiwch ag oedi cyn ffonio'r corff dyfarnu perthnasol os oes angen cefnogaeth neu arweiniad ychwanegol arnoch chi os bydd amhariad yn digwydd ar eich arholiadau.

Canolfannau mewn perygl o beidio â gallu agor fel arfer yn ystod y cyfnod arholiadau

Fel uchod, mae'n rhaid i unrhyw gynlluniau wrth gefn sydd gennych ganolbwyntio ar sicrhau bod modd i ymgeiswyr sefyll eu harholiadau os oes perygl na fydd yn bosibl i'ch canolfan agor fel arfer.

Pennaeth y ganolfan sy'n gyfrifol am benderfynu a yw'n ddiogel i ganolfan agor. Dylai gymryd cyngor neu ddilyn cyfarwyddiadau gan asiantaethau lleol neu genedlaethol perthnasol.

Mae cynllun wrth gefn y gyfundrefn arholiadau Ofqual yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn y dylai ysgolion a cholegau a chanolfannau eraill ei wneud os bydd amhariad mawr yn digwydd ar arholiadau neu asesiadau eraill. www.gov.uk/government/publications/exam-system-contingency-plan-england-wales-and-northern-ireland/what-schools-and-colleges-should-do-if-exams-or-other-assessments-are-seriously-disrupted

Mae'n bosibl cael ystyriaeth arbennig drwy absenoldeb am resymau derbyniol hefyd os bydd pob llwybr arall wedi'i ystyried a'r ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf perthnasol.

Peidiwch ag oedi cyn ffonio'r corff dyfarnu perthnasol os oes angen cefnogaeth neu arweiniad ychwanegol arnoch chi os bydd amhariad yn digwydd ar eich arholiadau.

Amhariad ar gludiant papurau arholiad wedi'u cwblhau

Os bydd oedi'n digwydd yn y trefniadau casglu arferol ar gyfer sgriptiau arholiad wedi'u cwblhau:

- Mewn achosion lle mae arholiadau'n rhan o'r gwasanaeth 'labeli melyn' cenedlaethol neu lle mae cyrff dyfarnu'n trefnu casglu'r deunyddiau, dylai canolfannau **gysylltu â'r cyrff dyfarnu perthnasol** am gyngor a chyfarwyddiadau.
- Mewn achosion lle mae'r canolfannau eu hunain yn gwneud eu trefniadau casglu, dylent **ymchwilio i ba ddewisiadau eraill** sydd ar gael sy'n cydymffurfio â dogfen Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau y CGC.
- **Rhaid cadw sgriptiau wedi'u cwblhau yn ddiogel** tan y byddan nhw'n cael eu casglu.

Crynodeb o gyfrifoldebau'r ganolfan a'r corff dyfarnu

Cyfrifoldeb y canolfannau arholiadau yw:

- Paratoi cynlluniau i'w defnyddio mewn ymateb i unrhyw amhariad ar arholiadau yn rhan o gynllunio argyfwng cyffredinol y canolfannau
- Penderfynu p'un a yw'n bosibl i ganolfan agor ar gyfer arholiadau fel yr amserlennwyd a hysbysu'r cyrff dyfarnu perthnasol os nad yw'r ganolfan yn gallu agor
- Ystyried pa gyfleoedd sydd ar gael i wneud trefniadau eraill os nad oes modd i ganolfan agor ar gyfer arholiadau a chytuno unrhyw drefniadau o'r fath â'r cyrff dyfarnu
- Barnu p'un a yw ymgeiswyr yn bodloni'r gofynion i dderbyn ystyriaeth arbennig o ganlyniad i unrhyw amhariad a chyflwyno'r ceisiadau hyn i'r cyrff dyfarnu perthnasol
- Asesu eu hamgylchiadau a chysylltu â'r cyrff dyfarnu os bydd amhariad yn digwydd wrth gludo'r papurau.

Cyfrifoldeb y cyrff dyfarnu yw:

- Sicrhau bod canolfannau'n derbyn deunyddiau arholiad ar gyfer arholiadau wedi'u hamserlennu
- Cynghori canolfannau ynghylch trefniadau eraill posibl a gwrthod/cymeradwyo cynigion ar gyfer trefniadau arholiad eraill posibl
- Gwerthuso a gwrthod/cymeradwyo ceisiadau am ystyriaeth arbennig.

Cysylltu â'r cyrff dyfarnu

Ym mhob achos, os oes gennych unrhyw bryderon, dylech gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol am gyngor:

- AQA 0800 197 7162
eos@aqa.org.uk
- CCEA 028 9026 1212, 028 9026 1293
centresupport@ccea.org.uk
- OCR 01223 553998
general.qualifications@ocr.org.uk
- Pearson 0344 463 2535
- CBAC 02920 265 077
arholiadau@cbac.co.uk